X`x`

**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 17 Awst 2021 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Goronwy Hughes, Richard Robinson, Haf Williams, Beca Brown, Phillip Roberts, Martin Jones, Iola Parry.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Cemlyn Jones, Berwyn Parry Jones

**Aelodau o'r Cyhoedd:** Elliw Griffith, Llinos Parry

**Clerc:** Meirion Jones

**857. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod

**858. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**859. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**860. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 20 Gorffennaf 2021**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**861. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Nifer o faterion ar agenda cyfarfod heno

**862. I dderbyn adroddiad gan bwyllgor y fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Phillip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent fod y pwyllgor wedi cyfarfod ac heblaw am y gwaith arferol sydd yn mynd ymlaen fod y pwyllgor wedi cyfarfod a'r ICCM ac mae nawr mewn gwell lle i ymateb i ymholiadau.

Adroddwyd fod 1 cais wedi dderbyn oddi tan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Adroddwyd fod llythyr wedi dderbyn gan Elliw Griffith yn rhoi sylwadau am y drefn a ddefnyddiwyd ac nad yw pobl wedi cael digon o amser i ymdrin a'r sefyllfa.

Nodwyd ni fydd lansiad i system ddigidol yn cael ei lansio hyd nes bydd y placiau yn nodi yr ardaloedd yn y fynwent wedi eu gosod.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**863. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, nad oedd y pwyllgor wedi cyfarfod ond fe gytunwyd i gynnal cyfarfod ar 24 o Awst yn y Sefydliad Coffa.

**864. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Haf Williams yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cyfarfod yn y Parc Sglefrio ac wedi canolbwyntio ar adroddiad asesiad risg ar y cae chwarae ac fod gwaith wedi ei adnabod angen ei wneud.

Giat ar gyfer Dolafon – wedi derbyn amcangyfrif o'r gost ac angen gwiro fod y maint a'r math yn gywir cyn archebu.

Nodwyd fod cael chwarae Allt Goch yn daclus a diolchwyd i'r torrwr gwair am ei waith.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**865. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Bwyd**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Beca Brown fod y cynllun bwyd yn parhau ac wedi ei sefydlu nawr. Adroddwyd ein bod wedi cyfarfod a criw Tyddyn Teg ar gyfer dosbarthu bocsys llysiau ac fod hyn yn gynllun peilot rhwng Tyddyn Teg, Prifysgol Gorllewin Lloegr a'r cyngor. Mae'r cynllun yn mynd yn ei flaen ac angen ffurflenni cydsyniad

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**866. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

Ddim yn bresennol

**867. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

I ddilyn

**868. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais: C21/0736/23/HY**
**Math o Gais: Caniatad Hysbyseb (HY)**
**Bwriad: Ail-leoli arwydd goleuedig**
**Asiant:Mr Gareth Rennie**
**Ymgeisydd:Mr Anthony Vaughan Jones**
**Cyfeiriad:Maes Carafanau Twll Y Clawdd, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2AZ**
**Cyfeirnod Grid:253138.2, 363472.34**
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:C21/0704/23/LL**
**Math o Gais:Cais Llawn**
**Bwriad:Lleoli dau ddosbarth symudol ar iard gefn Ysgol Brynrefail er mwyn darparu 3 ystafell ddosbarth ychwanegol am gyfnod o 5 mlynedd.**
**Asiant:Rhys Carden (Datblygu Eiddo (Cyngor Gwynedd))**
**Ymgeisydd:Mr Geraint Owen (Gwasanaeth Eiddo, Cyngor Gwynedd)**
**Cyfeiriad:Cyngor Gwynedd, Ysgol Brynrefail Ffordd Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD**
**Cyfeirnod Grid:253597.46, 363725.5**
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:C20/0920/23/LL**
**Math o Gais:Cais Llawn**
**Bwriad:Codi tŷ deulawr 2 lofft**
**Asiant:Simon Franks**
**Ymgeisydd:Huw Stanley Williams**
**Cyfeiriad:Plot 7, Minffordd Estate, Llanrug, Caernarfon,**
**Cyfeirnod Grid:253565.49, 363155.59**
**Ward:Llanrug**
**Cymuned:Llanrug**

**Penderfynwyd:** Pryder am ddiogelwch a cyflwr y tir oddi dano.

d) Cais ymgynghori cyn ymgeisio – Plas Tirion, Llanrug

**Penderfynwyd:** Aros am y cais cynllunio

Daeth y cyfarfod I ben am 20:15

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: 21 o Fedi 2021